**LC1239**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

Bydd y Rheoliadau hyn yn disodli'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 54 i 57, ac Atodlenni 16 a 17 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Byddant yn darparu fframwaith rheoleiddio newydd y bydd cyrff llywodraethu yn gweithredu oddi mewn iddynt ac yn cyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau mewn cysylltiad â phenodi staff mewn ysgolion a gynhelir, eu hymddygiad a disgyblaeth, eu hatal a'u diswyddo.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliadau 10(9) a 24(8) yn awgrymu y bydd y panel dewis a benodwyd gan gorff llywodraethu yn cynnwys aelodau o'r corff llywodraethu hwnnw'n unig. Fodd bynnag, noda rheoliadau 10(13) a (14) a 24 (12) a (13) y gall aelodau panel dewis gynnwys personau nad ydynt yn llywodraethwyr er bod yn rhaid i fwyafrif aelodau unrhyw banel dewis fod yn llywodraethwyr. O gymryd mai bwriad y Rheoliadau yw caniatáu i bersonau nad ydynt yn llywodraethwyr fod yn aelodau o baneli dewis, dylid diwygio rheoliadau 10(9) a 24(8) i adlewyrchu'r bwriad hwn. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae'r mân wallau drafftio a nodwyd uchod yn addas i'w cywiro trwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr drafftio ynglyn â'r pwyntiau fformadu sy'n addas i'w cywiro wrth gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 7 Mawrth 2006